**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2004 Rhif 711 (Cy.78)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 (Ehangu Ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol") (Cymru) 2004

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu bod gweithwyr cymdeithasol o dan hyfforddiant i'w trin fel gweithwyr gofal cymdeithasol at ddibenion cofrestru gyda Chyngor Gofal Cymru.

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2004 No. 711 (W.78)

# SOCIAL CARE, WALES

## The Care Standards Act 2000 (Extension of Meaning of "Social Care Worker") (Wales) Regulations 2004

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations provide that student social workers are to be treated as social care workers for the purposes of registration with the Care Council for Wales.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2004 Rhif 711 (Cy.78)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 (Ehangu Ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol") (Cymru) 2004

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *10 Mawrth 2004* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2004* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, trwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 55(3) a 118(6) o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**a**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 (Ehangu Ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol") (Cymru) 2004 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2004.

**Dehongli**

**2**. Yn y rheoliadau hyn-

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Gofal Cymru;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Safonau Gofal 2000;

ystyr "gweithiwr cymdeithasol o dan hyfforddiant" ("*student social worker*") yw person sy'n cymryd rhan mewn cwrs a gymeradwywyd gan y Cyngor o dan adran 63 o'r Ddeddf i bersonau sy'n dymuno bod yn weithwyr cymdeithasol.

**Personau i'w trin fel gweithwyr gofal cymdeithasol**

**3**. -(1) Mae gweithwyr gofal cymdeithasol o dan hyfforddiant i'w trin fel gweithwyr gofal cymdeithasol at y diben a bennir ym mharagraff (2) o'r rheoliad hwn.

(2) Y diben yw cofrestru gweithwyr gofal

(a) 2000 p. 14. Rhoddir y pwerau i'r "appropriate Minister" a ddiffinnir gan adran 121(1) o'r Ddeddf fel "the Assembly" mewn perthynas â Chymru. *Gweler* adran 5(b) o'r Ddeddf am y diffiniad o "the Assembly".

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2004 No. 711 (W.78)

# SOCIAL CARE, WALES

## The Care Standards Act 2000 (Extension of Meaning of "Social Care Worker") (Wales) Regulations 2004

| | |
|---|---|
| *Made* | *10th March 2004* |
| *Coming into force* | *1st April 2004* |

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred upon it by sections 55(3) and 118(6) of the Care Standards Act 2000(**a**), hereby makes the following Regulations:

**Citation and commencement**

**1**. These Regulations may be cited as the Care Standards Act 2000 (Extension of Meaning of "Social Care Worker") (Wales) Regulations 2004 and come into force on 1st April 2004.

**Interpretation**

**2**. In these Regulations-

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Care Standards Act 2000;

"the Council" ("*y Cyngor*") means the Care Council for Wales;

"student social worker" ("*gweithiwr cymdeithasol o dan hyfforddiant*") means a person participating in a course approved by the Council under section 63 of the Act for persons wishing to become social workers.

**Persons to be treated as social care workers**

**3**. -(1) Student social workers are to be treated as social care workers for the purpose specified in paragraph (2) of this regulation.

(2) The purpose is the registration of student social

(a) 2000 c. 14. The powers are conferred upon the appropriate Minister which is defined by section 121(1) of the Act as "the Assembly" in relation to Wales. *See* section 5(b) of the Act for the definition of the Assembly.

cymdeithasol o dan hyfforddiant yn y gofrestr a gedwir gan y Cyngor o dan adran 56(1) o Ddeddf 2000.

workers in the register maintained by the Council under section 56(1) of the 2000 Act.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**)

10 Mawrth 2004

10th March 2004

*John Marek*

Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Deputy Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p. 38.

(a) 1998 c. 38.

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2004 Rhif 711 (Cy.78)

# 2004 No. 711 (W.78)

## GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## SOCIAL CARE, WALES

Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 (Ehangu Ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol") (Cymru) 2004

The Care Standards Act 2000 (Extension of Meaning of "Social Care Worker") (Wales) Regulations 2004

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2004

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2004

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090896-1

9 780110 908960

£3.00

W39/03/04 ON